



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar**

**Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/09/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Amberleigh yn ysgol arbennig annibynnol gerllaw tref farchnad y Trallwng, Powys. Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r holl ddisgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 11 disgybl ar y gofrestr, bob un ohonynt yn fechgyn sy'n byw yn y cartref plant sy'n rhannu safle'r ysgol. Mae gan saith disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw'r holl ddisgyblion o gefndiroedd Saesneg eu hiaith yn bennaf.

Penodwyd y pennaeth addysg ym Mawrth 2016.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu digynnwrf a meithringar lle caiff disgyblion eu trin gyda pharch. O ganlyniad, mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng y disgyblion a'r staff.

Mae disgyblion yn defnyddio'r cymorth therapiwtig strwythuredig yn yr ysgol yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn gwella'u hymddygiad, eu hunan-barch a'u hyder gydag amser. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion godi materion sydd o bryder iddynt.

Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr o addysg bersonol a chymdeithasol sy'n cael ei chyflwyno ar y cyd gan athrawon, therapyddion a staff gofal. Mae hyn yn cynnwys cymorth ac arweiniad ar feysydd pwysig fel addysg rhyw a pherthynas, diogelwch ar-lein a buddion deiet iach ac ymarfer corff rheolaidd.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion y disgyblion ac sy'n hybu gwerthoedd yr ysgol yn dda. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o wersi yn y dosbarth, gweithgareddau awyr agored a chyfraniad therapiwtig. Mae disgyblion hyn yn elwa o leoliadau profiad gwaith a chyrsgiau wedi'u darparu mewn coleg addysg bellach lleol. Mae disgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda mewn gwersi Saesneg a mathemateg.

Mae uwch arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio ar ddarparu dull integredig o fodloni anghenion disgyblion. Mae staff addysg, gofal a therapi yn gyfarwydd iawn â'r weledigaeth ac yn ei chefnogi'n dda.

## Meysydd i'w datblygu

Mae gan yr ysgol brosesau gwerthfawr ar gyfer nodi anghenion academaidd, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn dogfennau cynllunio ar gyfer pob maes darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi dwyn y wybodaeth hon ynghyd mewn un cynllun cydlynus ar gyfer pob disgybl. O ganlyniad, nid yw defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau unigol penodol i ddisgyblion mewn meysydd dysgu pwysig, fel llythrennedd a chyfathrebu, wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol.

Megis dechrau datblygu y mae'r gweithdrefnau i staff arfarnu ansawdd addysgu, cymedroli asesiadau athrawon a rhannu arfer orau yn y meysydd pwnc y maent yn gyfrifol amdanynt.

## Argymhellion

- A1 Sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn nodi anghenion penodol disgyblion ac yn darparu targedau clir ar gyfer mynd i'r afael â'r anghenion hyn
- A2 Cryfhau'r gweithdrefnau er mwyn i staff arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a rhannu arfer orau yn y pynciau y maent yn gyfrifol amdanynt

## **Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol**

### **Argymhelliad 1: Cyflwyno system glir a chydlynus ar gyfer nodi, cefnogi a monitro anghenion dysgu ychwanegol disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar waith i nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae gan staff ddealltwriaeth dda o gryfderau disgyblion a'u meysydd i'w datblygu ac maent yn sicrhau bod rhaglenni dysgu'n cael eu paru'n briodol ag anghenion a galluoedd disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu system ar-lein i fonitro cyflawniad amcanion dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw systemau i olrhain cynnydd disgyblion wrth fynd i'r afael â'u hanghenion ychwanegol ehangach wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd. Nid yw cynlluniau addysg unigol disgyblion yn rhoi digon o wybodaeth am anghenion penodol disgyblion. Nid yw staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau sy'n mynd i'r afael ag anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn ddigon clir.

### **Argymhelliad 2: Cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinwyr wedi cryfhau darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae staff wedi cael hyfforddiant ar weithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ac mae ganddynt well dealltwriaeth o'r ffordd y gall llythrennedd a rhifedd gael eu hybu ar draws pob gwrs a gweithgareddau eraill. Mae athrawon yn defnyddio fformat newydd ar gyfer cynllunio, sy'n amlygu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae staff sydd â chyfrifoldeb am arwain datblygiad llythrennedd a rhifedd wedi cyflwyno asesiadau gwaelodlin newydd gyda ffocws llymach ar amlygu cryfderau disgyblion a'u meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i gynllunio ymyriadau sy'n cyfateb yn agos i fedrau llythrennedd ac anghenion rhifedd disgyblion unigol. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer cyflwyno'r ymyriadau hyn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i arfarnu effaith yr ymyriadau ar safonau disgyblion.

Megis dechrau datblygu y mae trefniadau i sicrhau ansawdd effeithiolrwydd cynllunio athrawon ac ansawdd ymyriadau llythrennedd a rhifedd, a chymedroli asesiadau athrawon o fedrau disgyblion.

### **Argymhelliad 3: Gwella hunanarfarnu fel bod ffocws cliriach ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn cynnwys arfarniad priodol o ddeilliannau pwysig disgyblion, fel perfformiad mewn arholiadau a chyrchfannau dysgwyr. Mae arweinwyr wedi cryfhau trefniadau ar gyfer asesu ac olrhain medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. O ganlyniad, mae gan staff well dealltwriaeth o gyflymder cynnydd disgyblion unigol wrth ddatblygu'r medrau hyn.

Mae arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau strategol gwerthfawr gydag ysgolion eraill i amlygu arfer dda a dysgu oddi wrthi. Mae hyn wedi helpu arweinwyr i arfarnu safonau cynnydd academaidd a datblygiad medrau cymdeithasol disgyblion o gymharu â'r safonau y mae disgyblion mewn ysgolion tebyg yn eu cyflawni.

Mae ffocws priodol ar safonau disgyblion mewn cyfarfodydd staff ac arsylwadau gwersi.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### **Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### **Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### **Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### **Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### **Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### **Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### **Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

<b>Ysgol</b>	Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh
<b>Rhif yr ysgol</b>	6666042
<b>Diben yr ymweliad</b>	Arolygiad monitro blynyddol
<b>Dyddiad yr ymweliad</b>	10/07/2017
<b>Perchennog</b>	Kevin Gallagher
<b>Staff</b>	1 pennaeth addysg, 1 rheolwr addysg, 6 athro, 1 cynorthwydd gweinyddol
<b>Nifer y disgyblion</b>	11 disgybl
<b>Darpariaeth</b>	Darpariaeth dydd ar gyfer disgyblion sy'n preswyllo yng nghartref plant y sefydliad
<b>Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer</b>	Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol
<b>Arolygiad Adran 163 diwethaf</b>	22/11/2016
<b>Arolygiad monitro blynyddol diwethaf</b>	05/05/2015
<b>Arolygiad diwethaf gan AGGCC</b>	Chwefror 2016

## Gwybodaeth am y tîm

Mr Anthony Mulcahy	Arolygydd Cofnodol
Mr Richard Mark Tither	Arolygydd Tîm